**Adrannau 1 ac 8 o'r Asesiad Effaith Integredig sy'n ymwneud â Rheoliadau Drafft Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Apelau ac Ad-dalu Treuliau) (Cymru) 2027**

**Adran 1. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei wneud a pham?**

**1.1 Diben y Cynnig:** I wneud darpariaeth, drwy reoliadau, ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn wrth benderfynu ar geisiadau a wneir i Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) 2025 (y Ddeddf). Mae'r rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer tegwch, tryloywder a chysondeb mewn perthynas â phenderfynu ar geisiadau. Maent yn darparu system gymesur sy'n cefnogi goruchwyliaeth effeithiol gan sicrhau diogelwch cymunedol.

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno cyfundrefn reoleiddiol newydd ar gyfer tomenni nas defnyddir yng Nghymru, gan ddarparu dull cyson o asesu, cofrestru, monitro, cynnal a chadw a goruchwylio tomenni nas defnyddir. Mae'r Ddeddf yn dileu swyddogaethau sydd wedi dyddio ar awdurdodau lleol yng Nghymru o dan Ddeddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969 (Deddf 1969). Mae hyn, i bob pwrpas, yn datgymhwyso Rhan 2 o Ddeddf 1969 mewn perthynas â Chymru i raddau helaeth.

Mae'r Ddeddf yn sefydlu corff newydd i weithredu'r gyfundrefn, Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru (Yr Awdurdod), a'i waith yw sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i'r Awdurdod ei gwneud yn ofynnol i dirfeddiannwr gynnal gweithrediadau, ac mae'n rhoi'r pŵer i'r Awdurdod gynnal gweithrediadau ar dir ei hun i atal bygythiadau i sefydlogrwydd tomenni nas defnyddir neu ymdrin â bygythiadau o'r fath neu i sefydlogi tomenni nas defnyddir neu eu hatal rhag mynd yn fwy ansefydlog, er mwyn osgoi neu leihau bygythiadau i les pobl.

O dan adran 35 o'r Ddeddf, gall yr Awdurdod gyhoeddi hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i dirfeddiannwr gynnal gweithrediadau (y cyfeirir ato fel hysbysiad adran 35). Gellir dyroddi hysbysiad adran 35 pan fo'r Awdurdod yn ystyried hyn i fod yn angenrheidiol i atal bygythiadau i sefydlogrwydd tomenni nas defnyddir neu ymdrin â bygythiadau o'r fath neu i sefydlogi tomenni nas defnyddir neu eu hatal rhag mynd yn fwy ansefydlog, er mwyn osgoi neu leihau bygythiadau i les pobl. Mae'r Ddeddf yn darparu hawl i dirfeddianwyr a phartïon â buddiant wneud cais i Weinidogion Cymru amrywio neu ganslo hysbysiad adran 35 (o dan adran 38). Pan fo'r Awdurdod wedi canslo hysbysiad adran 35 a bod y tirfeddiannwr wedi ysgwyddo costau wrth gydymffurfio ag ef, gall y tirfeddiannwr hawlio ad-daliad am y costau (o dan adran 43).

Er mwyn sicrhau bod penderfyniadau ynghylch ceisiadau yn deg ac yn dryloyw, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru nodi mewn rheoliadau'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth benderfynu ar geisiadau o'r fath (o dan adrannau 40(1) a 43(7)). Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru o dan adrannau 40(2) a 43(8) wneud unrhyw ddarpariaeth arall yr ystyrir ei bod yn briodol mewn cysylltiad â phenderfynu ar gais.

Mae Rheoliadau Drafft Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Apelau ac Ad-dalu Treuliau) (Cymru) 2027 (y Rheoliadau) yn nodi'r weithdrefn ar gyfer penderfynu ar geisiadau o dan adran 38 o'r Ddeddf i amrywio neu ganslo hysbysiad

adran 35 a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Tomenni nas Defnyddir (yr Awdurdod) sy'n ei gwneud yn ofynnol i dirfeddianwyr gynnal gweithrediadau ar dir i:

- atal bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir neu ymdrin â'r bygythiadau hynny, neu
- sefydlogi tomen nas defnyddir neu atal tomen nas defnyddir rhag mynd yn fwy ansefydlog.

Gall parti â buddiant sy'n cael copi o hysbysiad adran 35 hefyd wneud cais i Weinidogion Cymru amrywio neu ganslo'r hysbysiad, a bydd unrhyw gais o'r fath hefyd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn a nodir yn y Rheoliadau.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu'r weithdrefn ar gyfer penderfynu ar geisiadau am ad-dalu treuliau o dan adran 43 o'r Ddeddf pan fod tirfeddiannwr yn gallu gwneud cais i Weinidogion Cymru am ad-daliad treuliau a ysgwyddwyd o ganlyniad i'r Awdurdod ganslo hysbysiad adran 35. Gall yr Awdurdod ad-dalu tirfeddiannwr am:

- unrhyw wariant yr aed iddo gan y tirfeddiannwr o ganlyniad i roi'r hysbysiad, ac
- unrhyw wariant yr aed iddo gan y tirfeddiannwr y gellir ei briodoli i ganslo'r hysbysiad (pa un a ellir ei briodoli i adfer unrhyw dir, canslo unrhyw gontract neu fel arall).

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i geisiadau o dan adran 38 a 48 gael eu penderfynu gan berson a benodir gan Weinidogion Cymru (y person penodedig). Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd Penderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd Cymru (PEDW) yn gweithredu fel y person penodedig ac yn rheoli'r broses ar ran Gweinidogion Cymru, ond mae Gweinidogion Cymru yn cadw cyfrifoldeb ynghylch pwy i'w benodi a gallant benodi rhywun heblaw PEDW.

Bydd y Rheoliadau yn gwneud yn glir pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn cais a pha ddogfennau y mae'n rhaid eu cynnwys gyda chais.

**1.2 Tueddiadau, heriau a chyfleoedd hirdymor**

Mae newid hinsawdd a mwy o law yn cynyddu'r risg o domenni ansefydlog. Dangosodd Cyflwr Hinsawdd y DU yn 2024 (Gorffennaf 2025) fod glawiad yn y DU wedi cynyddu ychydig yn ystod y degawdau diwethaf. Yng Nghymru, adroddodd yr asesiad risg a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd Annibynnol hefyd gynnydd bach mewn glawiad cymedrig blynyddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan ragweld bod disgwyl i'r glawiad ddwysáu yn y dyfodol, yn ystod y gaeafau, gan arwain at y tebygolrwydd o lifogydd a fyddai'n effeithio ar seilwaith, busnesau a chartrefi.

Nod y Ddeddf yw lliniaru'r risgiau cynyddol o domenni ansefydlog drwy sefydlu cyfundrefn ragweithiol a fydd yn diogelu lles pobl, yn diogelu cymunedau ac yn diogelu seilwaith critigol Cymru drwy sefydlu'r Awdurdod a fydd â swyddogaethau mewn perthynas ag asesu, cofrestru, monitro a rheoli tomenni nas defnyddir.

Wrth gyflawni ei rôl, bydd yr Awdurdod yn nodi pryd y bydd angen gweithrediadau i ddelio ag ansefydlogrwydd tomenni nas defnyddir neu fygythiadau i sefydlogrwydd tomenni o'r fath er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau neu osgoi tirlithiadau tomenni a allai fygwth lles pobl. Mae angen rheoliadau ar gyfer gweithdrefn apelio

glir ac effeithlon i sicrhau system deg a thryloyw lle gall unigolion geisio amrywio neu ganslo hysbysiad adran 35, neu wneud cais am ad-daliad costau ar ôl canslo hysbysiad adran 35.

### 1.3 Atal

Prif ddiben y Ddeddf yw atal tomenni nas defnyddir rhag bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd yr Awdurdod yn monitro ac yn archwilio tomenni nas defnyddir i'w rheoli yn effeithiol ac atal bygythiadau i les pobl. Bydd yn hysbysu'r rhai y gallai eu gweithredoedd effeithio ar sefydlogrwydd tomen nas defnyddir (gan gynnwys perchnogion, meddianwyr, tirfeddianwyr cyfagos neu eraill) am y camau sy'n rhaid eu cymryd i sicrhau bod y domen yn parhau i fod yn sefydlog, mynd i'r afael ag unrhyw ansefydlogrwydd neu sefydlogi tomen nas defnyddir. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno system gofrestru ac asesu gynhwysfawr sy'n seiliedig ar risg ar gyfer tomenni nas defnyddir, yn gwneud darpariaeth ar gyfer monitro ac archwilio, gan roi'r pŵer i'r Awdurdod ei gwneud yn ofynnol i dirfeddianwyr ymgymryd â gweithrediadau i fynd i'r afael ag unrhyw risg i sefydlogrwydd tomen, ac yn cyflwyno pwerau i'r Awdurdod gynnal gweithrediadau ei hun, gan gynnwys gwaith sydd angen ei wneud ar frys i sicrhau sefydlogrwydd tomen. Wrth wneud hynny, bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi hysbysiadau adran 35, lle bo hynny'n briodol, i dirfeddiannwyr sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gynnal gweithrediadau angenrheidiol i sicrhau sefydlogrwydd tomen neu atal tomen nas defnyddir rhag dod yn fwy ansefydlog er mwyn osgoi neu leihau bygythiadau i les pobl. Mae'r Rheoliadau yn nodi'r weithdrefn ar gyfer penderfynu ar geisiadau gan dirfeddianwyr neu bersonau â buddiant sy'n ceisio amrywio neu ganslo hysbysiad adran 35, neu gan dirfeddiannwr sy'n ceisio ad-daliad pan fo hysbysiad adran 35 wedi'i ganslo.

### 1.4 Integreiddio a Chydweithredu

Mae'r gyfundrefn yn cefnogi blaenoriaethau traws-sector, gan gynnwys tai, trafnidiaeth, cyfleustodau, cynllunio a gwytnwch amgylcheddol. Ymgysylltir â rhanddeiliaid fel yr Awdurdod Adfer Mwyngloddio (MRA), Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), awdurdodau lleol, tirfeddianwyr a chymunedau drwy gydol y broses weithredu.

### 1.5 Cynnwys

- *Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?*

Er bod y gwaith ymgysylltu hyd yma wedi canolbwyntio ar y Ddeddf ehangach, mae'r fframwaith apelio wedi'i ffurfio gan adborth sy'n pwysleisio'r angen am eglurder, hygyrchedd a chyflwyno dwyieithog. Mae PEDW wedi bod yn rhan o ddatblygu'r Rheoliadau drafft, a bydd y ddeialog hon yn parhau wrth inni fireinio a chwblhau'r fframwaith gweithdrefnol.

Ymgynghorwyd â chynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer y Ddeddf yn y Papur Gwyn, a gynhaliwyd rhwng 12 Mai 2022 a 4 Awst 2022. Cafodd cyfanswm o 23 o gwestiynau eu cynnwys ac roedd ymatebwyr yn gallu ymateb drwy ddefnyddio ffurflen arolwg ar-lein, cyfeiriad e-bost penodedig neu drwy'r post. Roedd y Papur Gwyn yn gofyn am safbwyntiau ar y cynigion polisi ar gyfer prif nodweddion y gyfundrefn reoli newydd.

Cafwyd cyfanswm o 44 o ymatebion i'r Papur Gwyn, gyda 40 o ymatebion o bob rhan o Gymru a 4 gan ymatebwyr yn Lloegr.  Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys unigolion preifat, sefydliadau amrywiol, cynrychiolwyr etholedig, cwmnïau preifat, cyrff proffesiynol, academia, ac awdurdodau lleol.

Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymgynghoriad ym mis Tachwedd 2022.

Roedd yr ymatebion yn adlewyrchu amrywiaeth o safbwyntiau, ond yn gyffredinol roeddent yn cefnogi'r cynigion am ddeddfwriaeth yn y Papur Gwyn.

Roedd y Papur Gwyn yn cynnig y dylai perchnogion/meddianwyr gael yr hawl i apelio yn erbyn cofrestru, gosod gorchmynion cynnal a chadw ac yn erbyn unrhyw newidiadau am waith o dan orchymyn cynnal a chadw, os oes anghytundeb ynglŷn â'r costau.  Roedd y Papur Gwyn yn cynnwys egwyddorion apelio ond nid gweithdrefnau.

Mae'r Ddeddf yn adlewyrchu'r cynigion hynny yn fras tra bod y rheoliadau'n darparu'r weithdrefn sydd i'w dilyn gan y person penodedig wrth benderfynu ar apelau o dan adrannau 38 a 43 o'r Ddeddf.

*Beth sy'n bwysig i'r bobl y mae'r cynnig yn effeithio arnynt a sut y gallent fod yn rhan o'i gyflawni?*

Bydd pobl yr effeithir arnynt gan y Rheoliadau yn gwerthfawrogi diogelwch, tegwch, tryloywder a hygyrchedd. Mae cymunedau sy'n byw ger tomenni nas defnyddir eisiau sicrwydd bod risgiau ansefydlogrwydd yn cael eu rheoli'n brydlon i ddiogelu cartrefi, ysgolion a seilwaith. Mae tirfeddianwyr a meddianwyr eisiau eglurder ar eu cyfrifoldebau a hyder y bydd ceisiadau o dan adran 38 a 43 o'r Ddeddf yn cael eu penderfynu trwy broses apelio effeithlon a theg. Mae rhanddeiliaid hefyd yn poeni am ddatrys apelau yn amserol er mwyn osgoi oedi mewn gwaith diogelwch hanfodol, ac maent yn disgwyl gwasanaethau dwyieithog a gweithdrefnau cynhwysol sy'n lleihau rhwystrau digidol ac economaidd-gymdeithasol.

### 1.6 Y Pum Ffordd o Weithio

- **Tymor hir**
  Mae'r Rheoliadau yn cefnogi diogelwch a gwytnwch cymunedol hirdymor drwy ymgorffori prosesau teg a thryloyw ar gyfer penderfynu ar gais i Weinidogion Cymru o dan y gyfundrefn tomenni nas defnyddir newydd. Drwy sicrhau nad yw apelau'n tanseilio gwaith sefydlogi brys, bydd y Rheoliadau yn helpu i gynnal hyder yn y system.
- **Atal**. Mae'r Rheoliadau yn cefnogi atal drwy sicrhau bod ceisiadau i amrywio neu ganslo hysbysiadau adran 35 a cheisiadau i geisio ad-dalu costau ar ôl canslo hysbysiad adran 35 yn cael eu datrys yn deg ac yn dryloyw.
- **Integreiddio**
  Mae'r Rheoliadau wedi'u cynllunio i gyd-fynd â fframwaith ehangach Deddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) 2025.  Er bod y Rheoliadau eu hunain yn weithdrefnol, maent yn cefnogi amcanion ehangach megis lleihau'r risg i bobl a seilwaith, cynnal hyder y cyhoedd, a sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Drwy ddarparu proses glir a chyson ar gyfer apelau, mae'r Rheoliadau yn integreiddio tegwch ac atebolrwydd i'r gyfundrefn rheoli tipiau cyffredinol.

- **Cydweithio**
  Er bod y Rheoliadau yn nodi'n bennaf ofynion gweithdrefnol ar gyfer penderfynu ar apelau, mae eu cyflawni'n llwyddiannus yn dibynnu ar gydweithio effeithiol rhwng Llywodraeth Cymru, yr Awdurdod Tomenni nas Defnyddir, a PEDW os cânt eu penodi i benderfynu ar geisiadau o dan adrannau 38 a 43 o'r Ddeddf. Bydd y person penodedig yn gweithredu'n annibynnol, rhaid iddo gydymffurfio â'r Rheoliadau a rhaid iddo roi sylw i ganllawiau Gweinidogion Cymru wrth arfer ei swyddogaethau sy'n ymwneud â phenderfynu ar geisiadau o'r fath, gan sicrhau eglurder disgwyliadau a chysondeb o ran dull gweithredu.
- **Cyfranogiad**
  Bydd cymunedau a thirfeddianwyr yn cael eu hystyried drwy'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau a'r canllawiau statudol cysylltiedig, gyda'r holl ddogfennau ar gyfer yr ymgynghoriad ar gael yn ddwyieithog. Bydd adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei ystyried a'i adlewyrchu mewn unrhyw ddiwygiadau i'r Rheoliadau a chanllawiau lle bo angen ac yn berthnasol, gan sicrhau bod gan y rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan y gyfundrefn lais wrth lunio'r ffordd y caiff ei chyflawni.

### 1.7 Effaith

Bydd effaith y Rheoliadau yn eang ac yn gadarnhaol i raddau helaeth:

- **Tegwch a Thryloywder** Drwy ddarparu proses apelio glir, maent yn meithrin ymddiriedaeth yn y gyfundrefn newydd ac yn rhoi hyder i dirfeddianwyr a rhanddeiliaid y bydd ceisiadau yn cael eu trin yn deg ac yn dryloyw.
- **Cydraddoldeb a Hygyrchedd:** Bydd gwrandawiadau o bell a gweithredu dwyieithog yn gwella cynhwysiant, er y bydd angen lliniaru'r risgiau allgáu digidol.
- **Hyder y cyhoedd:** Mae ymgorffori gwiriadau a balansau annibynnol yn cryfhau llywodraethu ac yn cyd-fynd â nodau llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### 1.8 Costau ac Arbedion

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gynnal ar y Rheoliadau ac mae'n nodi costau a manteision amcangyfrifedig y cynigion sydd ynddynt.

### 1.9 Mecanwaith

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi’i gwblhau ynghyd â’r Rheoliadau.

## Adran 8. Casgliad

### 8.1 Sut cafodd y bobl, y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt, eu cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Mae pobl sydd â buddiant yn y fframwaith polisi ar gyfer diogelwch tomenni nas defnyddir wedi'u cynnwys drwy gydol datblygiad y Ddeddf sy'n sail i'r Rheoliadau. Bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y cynigion ar gyfer y Ddeddf ym Mhapur Gwyn 2022 Fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer tomenni nas defnyddir yng Nghymru. Nododd y Papur Gwyn lle rydym o'r farn y dylai apelau fod ar gael yn y gyfundrefn reoli newydd, sef:

- dylai fod gan berchennog neu feddiannydd hawl i apelio yn erbyn cofrestru ar y gofrestr asedau lle nad oes tomen wedi'i lleoli ar y tir
- dylai’r perchennog neu feddiannydd gael hawl i apelio yn erbyn gosod gorchymyn cynnal a chadw
- dylai fod gan berchennog neu feddiannydd hawl i apelio yn erbyn codi unrhyw dâl am y gwaith o dan orchymyn cynnal a chadw, pan fo anghytundeb ynghylch y gost.

Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys unigolion, awdurdodau lleol, cwmnïau preifat, cyrff proffesiynol a chynrychiolwyr cymunedol. Dangosodd adborth o'r ymgynghoriad gefnogaeth eang i gyfundrefn gliriach, fwy cyson ac amlygodd bwysigrwydd cyfathrebu dwyieithog, prosesau hygyrch a gwneud penderfyniadau amserol.

Er na ymgynghorwyd â'r cynigion ar gyfer apelau ar wahân yn 2022, mae adborth rhanddeiliaid ar degwch, eglurder a thryloywder wedi llywio eu datblygiad.

Mae swyddogion polisi wedi parhau i gwrdd â rhanddeiliaid allweddol yn ystod paratoi'r gyfres ehangach o ganllawiau i'r Awdurdod ynghylch cyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf, a fydd ar waith i'w ddechrau ym mis Ebrill 2027. Mae'r ymgysylltiad hwn wedi atgyfnerthu'r angen am gymesuredd yn y broses apelio ac am opsiynau fel gwrandawiadau o bell i gefnogi hygyrchedd.

Bydd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Rheoliadau yn rhoi cyfle pellach i'r bobl yr effeithir arnynt fwyaf, yn enwedig tirfeddianwyr, personau â buddiant, cymunedau sy'n byw ger tomenni nas defnyddir ac awdurdodau lleol, wneud sylwadau ar y gweithdrefnau ac awgrymu gwelliannau. Bydd yr holl ddeunyddiau ymgynghori ar gael yn ddwyieithog, a bydd yr adborth a dderbynnir yn cael ei ystyried a lle bo hynny'n briodol, yn hysbysu unrhyw ddiwygiadau sydd eu hangen cyn i'r Rheoliadau gael eu cwblhau.

### 8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

#### *Casgliad*

Mae'r Rheoliadau yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer penderfynu ar geisiadau i Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf. Nid ydynt yn gosod dyletswyddau diogelwch nac amgylcheddol newydd, maent yn sefydlu gweithdrefn glir, dryloyw a chymesur ar gyfer penderfynu ar geisiadau a wneir i Weinidogion Cymru o dan adrannau 38 a 43 o'r Ddeddf. Mae eu heffeithiau yn weinyddol a gweithdrefnol yn bennaf, ond gallant effeithio ar ddiogelwch, yr amgylchedd a chymunedau.

#### Effeithiau cadarnhaol

- Mae'r Rheoliadau yn darparu gweithdrefn glir, gyson a thryloyw ar gyfer penderfynu ar geisiadau i Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf. Mae hyn yn gwella tegwch, yn rhoi sicrwydd i dirfeddianwyr ac yn cefnogi arferion gweinyddol da.

- Mae amserlenni diffiniedig, gofynion o ran dogfennaeth a mesurau diogelu gweithdrefnol yn helpu i sicrhau bod apelau'n cael eu datrys yn effeithlon. Mae hyn yn cryfhau hyder y cyhoedd yn y gyfundrefn reoleiddio newydd.

- Mae caniatáu i apelau gael eu penderfynu drwy sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiadau neu ymchwiliadau neu gyfuniad ohonynt, yn sicrhau bod prosesau'n gymesur â chymhlethdod pob achos.

- Mae penderfyniadau annibynnol gan berson penodedig yn gwella didueddrwydd ac atebolrwydd o fewn y system.

**Effeithiau negyddol**

- Gall y gofynion gweithdrefnol gyflwyno gofynion gweinyddol ar gyfer tirfeddianwyr, PEDW a'r Awdurdod, yn enwedig mewn achosion sy'n gofyn am wrandawiadau neu baratoi tystiolaeth fanwl. Efallai y bydd tirfeddianwyr llai neu lai profiadol yn gweld y broses yn heriol heb gefnogaeth broffesiynol.
- Gall natur ffurfiol y llwybrau apelio arwain at gostau ariannol uwch i rai cyfranogwyr, yn enwedig pan fo angen cynrychiolaeth neu fewnbwn arbenigol.

**8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau, neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r Rheoliadau yn cyfrannu at amcanion llesiant Cymru drwy ymgorffori tegwch, tryloywder ac atebolrwydd o fewn y gyfundrefn tomenni nas defnyddir newydd. Mae gweithdrefnau clir, llwybrau apelio cymesur ac amserlenni diffiniedig yn helpu i atal oedi a lleihau'r risg o ddigwyddiadau ansefydlogrwydd, gan gyfrannu at Gymru fwy diogel a gwydn.

Mae'r Rheoliadau yn cefnogi **Cymru Fwy Cyfartal** drwy ddarparu gweithdrefnau apelio tryloyw, dwyieithog sy'n hygyrch i dirfeddianwyr a phartïon â buddiant. Maent yn hyrwyddo tegwch drwy wneud penderfyniadau annibynnol a thrwy sicrhau bod yna weithdrefnau tryloyw a chymesur ar gyfer penderfynu ar geisiadau a wneir i Weinidogion Cymru o dan adrannau 38 a 43 o'r Ddeddf.

Drwy nodi gweithdrefnau teg, tryloyw a chymesur ar gyfer gwneud cais i amrywio a chanslo hysbysiad adran 35, mae'r Rheoliadau yn cefnogi Cymru Iachach drwy helpu i leihau straen diangen a lleihau ansicrwydd i'r rhai yr effeithir arnynt. Bydd yr amserlen 21 diwrnod ar gyfer cyflwyno cais, a nodir yn y Ddeddf, yn helpu i sicrhau y gellir mynd i'r afael â materion heb ansicrwydd hir, a all fel arall gyfrannu at straen neu bryder i'r rhai yr effeithir arnynt.

Pan fo cais o dan adran 38 yn cael ei wneud neu ei benderfynu, nid yw'r cyfnod a bennir yn hysbysiad adran 35 fel y cyfnod y mae'n rhaid cwblhau gweithrediadau ynddo yn dod i ben cyn penderfynu'r cais. Mae hyn yn golygu na all y person sydd wedi cael hysbysiad adran 35 fod yn euog o drosedd am fethu â chydymffurfio â'r hysbysiad tra bod y cais yn cael ei benderfynu. Mae'r person sy'n destun yr hysbysiad yn cael ei ddiogelu rhag y risg o fod yn euog o drosedd yn ystod y cyfnod hwn. Gall gwybod na all ysgwyddo atebolrwydd troseddol tra bod ei gais yn cael ei ystyried leihau gorbryder, ofn ôl-effeithiau, a'r ymdeimlad o frys neu bwysau a allai effeithio'n negyddol ar lesiant meddyliol yn sylweddol.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn sefydlu gweithdrefn ar wahân, yr un mor dryloyw ar gyfer gwneud cais am ad-dalu treuliau ar ôl canslo hysbysiad adran 35. Trwy ganiatáu cyfnod hirach o chwe mis i wneud ceisiadau o'r fath, mae'r Rheoliadau yn rhoi digon

o amser i bobl gasglu gwybodaeth, ceisio cyngor, a chyflwyno eu hawliad heb deimlo dan bwysau neu wedi'u llethu.

Gall y person penodedig hefyd ymestyn yr amser ar gyfer cwblhau gweithrediadau lle bo'n briodol. Mae'r gallu i ymestyn dyddiadau cau yn adlewyrchu dull cymesur ac empathig, gan ganiatáu i amgylchiadau eithriadol, megis cyfyngiadau adnoddau, materion iechyd, neu rwystrau ymarferol, gael eu hystyried. Gall yr hyblygrwydd gweithdrefnol hwn leihau straen a hyrwyddo ymdeimlad o degwch, gan gefnogi llesiant meddyliol a chanlyniadau llesiant ehangach.

Gyda'i gilydd, mae'r gweithdrefnau strwythuredig a hygyrch hyn yn hyrwyddo llesiant seicolegol drwy leihau ansicrwydd a gwella ymddiriedaeth yn y ffordd y mae penderfyniadau yn cael eu trin. Mae teimlo'n hyderus bod prosesau yn deg ac yn ddi-gosb yn cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant meddyliol ac yn cefnogi rhyngweithiadau iachach â systemau rheoleiddio.

Maent hefyd yn cefnogi llesiant cymunedol cyffredinol drwy sicrhau bod pobl yn cael llwybrau clir i geisio ystyried eu hamgylchiadau yn deg, gan gyfrannu at amgylchedd cyhoeddus tawelach, mwy gwybodus a mwy hyderus.

Ar y cyfan, mae'r Rheoliadau yn sicrhau bod y broses apelio yn gweithredu mewn ffordd sy'n deg, yn effeithlon ac sy'n cyd-fynd â nodau ehangach y Ddeddf a Deddf Llesiant-Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**8.4 Sut y bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth i'r gwaith fynd rhagddo, ac wedi iddo gael ei gwblhau?**

Bydd effaith y Rheoliadau yn cael ei fonitro drwy gydol y broses o'u gweithredu i sicrhau eu bod yn gweithredu fel y bwriadwyd ac yn cefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau amserol, teg a thryloyw.

Yn ystod y broses o'u gweithredu, bydd monitro parhaus yn canolbwyntio ar ddangosyddion perfformiad allweddol fel nifer yr apelau a broseswyd ac a ydynt yn bodloni amserlenni statudol. Wrth fonitro, caiff hygyrchedd y broses ei asesu hefyd, gan gynnwys y defnydd o wasanaethau dwyieithog a llwybrau cyflwyno digidol. Pan fo materion fel beichiau anghymesur, oedi neu anghysondebau yn codi, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda PEDW a'r Awdurdod Tomenni nas Defnyddir i fynd i'r afael â nhw.

Bydd effeithlonrwydd digidol yn cael ei asesu drwy gyfraddau defnyddio gwrandawiadau o bell a chyflwyniadau digidol.